BBC TEACH

# Amber

Hwyl a hyder,
cael cysgu dan y sêr,
trip i'r gwersyll
cyn croesi i'r ysgol uwchradd!

Weli di Mr Williams
yn sgrolio drwy'r iPad?
Yn nodi bod angen i bawb gymysgu,
Blwyddyn 6 yn cael eu haneru,
er mwyn i bawb
ddod i 'nabod ei gilydd'.

Mi rwyt ti'n gallu, Amber,
mae'n amser magu bach o ffydd,
peidio gadael i'r nos
dreiddio mewn i dy dydd.
cydnabod dy bryder,
ansicrwydd ac ofn
gan gofio 'run pryd
dy fod di'n fwy
na dy amheuon.
Ti'n gryf
ac yn cŵl,
tynna sgwrs gyda Ava,
drwy fentro
mae modd iti gyrraedd y copa!


© Hawlfraint BBC